| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **10 CHWEFROR 2022** |
| TEITL: | **TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION** |
| PWRPAS: | **Adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y sefyllfa arbedion** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion) i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Taflen Penderfyniad Cabinet 18/01/2022
Adroddiad Cabinet 18/01/2022: Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Ionawr 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Chwefror 2022 |

**PWNC**

Eitem 9: TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.

Nodwyd fod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

Wrth baratoi cyllideb 2022/23, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 3 o ran cynlluniau arbedion 2022/23: - cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef

- Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
- Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
  - symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol
  - nodwyd mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, fel a nodir yn Atodiad 3.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.